# Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru 2022



**ROYAL WELSH COLLEGE**
OF MUSIC & DRAMA
**COLEG BRENHINOL**
CERDD A DRAMA CYMRU

WWW.RWCMD.AC.UK

# Cyflwyniad

**Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yw Conservatoire Cenedlaethol Cymru ac mae'n rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru.**

Mae'n cyfrannu at hunaniaeth ddiwylliannol Caerdydd a Chymru ac yn denu rhai o'r myfyrwyr mwyaf dawnus o bedwar ban byd. Mae CBCDC yn aelod o Conservatoires UK. Ein gweledigaeth yw ysbrydoli a newid bywydau, a chysylltu a thrawsnewid cymunedau drwy'r celfyddydau.

Mae'r ddogfen strategaeth hon yn nodi ymagwedd barhaus CBCDC at y Gymraeg ar gyfer ei holl randdeiliaid, gan gynnwys myfyrwyr, staff a chynulleidfaoedd. Caiff ei chyhoeddi ar wefan CBCDC ac mae ar gael ar gais.

Y tu hwnt i ystyriaethau iaith yn unig, ac o fewn cyd-destun sefydliad celfyddydol deinamig, nod y strategaeth hon yw ymestyn i ddiwylliant Cymru, a datblygu ymagwedd gyfannol, gan gydnabod bod diwylliant ac iaith yn cydblethu yng ngwead diwylliannol Cymru.

Yn weithredol, caiff y strategaeth hon ei hategu a'i chynorthwyo gan Gynllun Gweithredu a dogfennau canllaw pellach sydd wedi'u hysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd priodol.

Mae'r strategaeth hon yn disodli dogfennau blaenorol CBCDC a oedd yn mynegi dull o *fabwysiadu* Safonau'r Gymraeg. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod gwella a datblygu'r Gymraeg, ar draws y ddarpariaeth, yn broses barhaus wrth symud ymlaen. Mae Adroddiad Blynyddol Iaith Gymraeg CBCDC hefyd yn canolbwyntio ar y gwelliant a'r datblygiad hwn.

# Ein nodau strategol trosfwaol ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymru yw:

- **Ymgymryd yn llawn â'r rôl fel Conservatoire Cenedlaethol Cymru drwy gydnabod natur hanfodol y Gymraeg yn hunaniaeth ddiwylliannol y genedl; a**
- **Defnyddio, cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ym mywyd a gwaith y Coleg.**

## Byddwn yn gwneud hyn drwy'r dulliau canlynol:

- **Cofleidio** dwyieithrwydd wrth ddarparu ein gwasanaethau ac yn ein gweithgarwch gweithredol, wedi'i gefnogi gan ymrwymiadau polisi a thrwy gadw cofnodion;
- **Chwilio** am gyfleoedd o fewn CBCDC ac mewn partneriaeth â sefydliadau diwylliannol eraill yng Nghymru, fel y BBC, Opera Cenedlaethol Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Urdd Gobaith Cymru a Mentrau Iaith Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau craidd; ac
- **Annog** y defnydd o'r Gymraeg ym mywyd beunyddiol CBCDC trwy godi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a datblygu.
- **Mae'r strategaeth** yn cael ei datblygu a'i monitro gan Weithgor y Gymraeg CBCDC, sydd â chynrychiolaeth ar draws y Coleg ac sy'n cynnwys mewnbwn myfyrwyr. Er hwylustod cyfeirio a chydlyniad, mae'r Strategaeth wedi'i mynegi mewn pum prif thema sy'n adlewyrchu adrannau thematig Safonau'r Gymraeg.

# 1. Cyflenwi Gwasanaethau

## Darparu ystod lawn o wasanaethau i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd yn ddwyieithog, i gefnogi ac yn unol ag egwyddorion a gofynion Safonau'r Gymraeg ac yng nghyd-destun bywyd diwylliannol Cymru.

### Byddwn yn gwneud hyn drwy'r dulliau canlynol:

+ **Cynnig** gwasanaethau cyfathrebu llawn, yn ysgrifenedig, dros y ffôn a thrwy ddulliau electronig eraill, yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
+ **Cynnig** gwasanaeth cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd lle mae'r cyfarfodydd naill ai'n agored i'r cyhoedd a/neu o leiaf 10% o'r rhai a wahoddwyd wedi nodi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg a/neu fod y cyfarfod gydag unigolyn yn unig sydd wedi nodi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg.
+ **Cynhyrchu'r** holl ddeunydd cyhoeddusrwydd yn ddwyieithog, gan gynnwys y cyhoeddiad *Rhaglen / What's On* a rhaglenni ysgrifenedig ar gyfer perfformiadau CBCDC.
+ **Annog** a chynnig arweiniad i fyfyrwyr sy'n cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer perfformiadau y maent yn eu hyrwyddo eu hunain.
+ **Cyhoeddi'r** holl ddogfennau a'r polisïau ar gyfer myfyrwyr a'r cyhoedd yn ddwyieithog.
+ **Cynnal** gwefan gwbl ddwyieithog.
+ **Sicrhau** bod yr holl arwyddion parhaol a dros dro yn ddwyieithog, a bod y Gymraeg wedi'i lleoli yn y fath fodd fel ei bod yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf.
+ **Darparu** gwasanaethau llawn y dderbynfa a hysbysiadau cyhoeddus yn ddwyieithog.
+ **Cyhoeddi** gwybodaeth ariannol, gan gynnwys ceisiadau am grantiau, cymorth ariannol a gwahoddiadau i dendro am gontract yn ddwyieithog.

# 1. Cyflenwi Gwasanaethau

**SAESNEG YW'R IAITH GYFLWYNO I FYFYRWYR CBCDC, YN UNOL Â PHROSESAU CYMERADWYO A DILYSU CYRSIAU.**

Fodd bynnag, fel Coleg sy'n arddel ymagwedd ddwyieithog, gall agweddau ar y ddarpariaeth gael eu cyflwyno'n Gymraeg os yw'r tiwtor a'r myfyriwr yn siarad Cymraeg, gan gynnwys hyfforddiant offerynnol neu lais unigol, goruchwylio traethodau hir a gweithgarwch tiwtorial academaidd arall.

Bydd y Coleg, o bryd i'w gilydd, yn comisiynu gweithgarwch perfformio yn y Gymraeg. Bydd rhaglenni perfformio, ym meysydd Cerddoriaeth a Drama, hefyd yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr a staff archwilio agweddau ar ddiwylliant Cymru, yn hanesyddol a chyfoes, mewn prosiectau heriol ac ysbrydoledig, gan gynnwys gwyliau blynyddol CBCDC o waith cyfoes, *Awyrgylch* a *NEWYDD*. Caiff modiwl cerddoriaeth Gymreig ei gynnig fel opsiwn i fyfyrwyr cerddoriaeth israddedig.

Mae myfyrwyr yn cadw'r hawl i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg, gofyn am Diwtor personol sy'n siarad Cymraeg (ar gyfer cymorth tiwtorial anacademaidd) a/neu ofyn am wasanaeth yn y Gymraeg gan Wasanaeth Cymorth Myfyrwyr. Ni fydd myfyrwyr sy'n gwneud y ceisiadau hyn yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai sy'n ymwneud yn y Saesneg.

## 1. Cyflenwi Gwasanaethau

| Gweithred | Perchennog | Wedi'i Fesur Gan | Llinell Amser |
|---|---|---|---|
| Sicrhau gwasanaethau cyfieithu llawn parhaus ar gyfer CBCDC, gan adnewyddu o bryd i'w gilydd Adolygiad blynyddol | Pennaeth Digidol a Brand | Gwasanaethau dan gontract yn eu lle Adolygiad blynyddol o wariant | Adolygiad blynyddol |
| Comisiynu cynhyrchiad dwyieithog ar gyfer *NEWYDD* | Cyfarwyddwr Perfformio (Drama) | Commission and Contract | Ar gyfer NEWYDD 2023 neu NEWYDD 2024 |
| Gydag Arweinwyr Cwrs, Penaethiaid Astudio a'r Adran Cerddoriaeth Greadigol, archwilio sut i hyrwyddo cerddoriaeth Gymreig mewn gweithgarwch prosiect a pherfformio | Cyfarwyddwyr Cerddoriaeth | Cynnwys y rhaglen a gweithgarwch prosiect | Gwanwyn 2023 a Gwanwyn 2024 |
| Modiwl Cerddoriaeth Gymreig newydd (Opsiwn BMus 3 neu 4) | Arweinydd Cwrs BMus a Chyfarwyddwr Cerddoriaeth | Modiwl ar gael | Hydref 2024 |

# 2. Llunio Polisi

**Sicrhau, wrth lunio polisïau newydd neu adolygu polisïau presennol, bod CBCDC yn rhoi sylw dyledus i'r safonau perthnasol ac yn ystyried effeithiau polisïau ar gyfleoedd i hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru.**

## Byddwn yn gwneud hyn drwy'r dulliau canlynol:

- **Cynnwys** y Gymraeg mewn trafodaeth ym Mhwyllgorau Sefydlog y Coleg fel y bo'n briodol
- **Sicrhau** bod proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sy'n ofynnol ar gyfer penderfyniadau polisi, yn cynnwys adran gynhwysfawr ar y Gymraeg.
- **Ei gwneud** yn ofynnol bod ymgynghoriad a/neu ymchwil i lywio'r gwaith o lunio polisi yn ystyried yr effeithiau y byddai'r penderfyniad polisi dan sylw yn ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- O ran datblygu ac adolygu cyrsiau a modiwlau, **sicrhau** y bydd y camau ffurfiol yn ystyried yr effeithiau y mae'r materion hynny'n eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a diwylliant Cymru, yn gadarnhaol ac yn negyddol.
- O ran datblygu polisïau ar gyfer gwaith cynhyrchu, **sicrhau** y bydd y camau ffurfiol yn ystyried yr effeithiau a gaiff y materion hynny ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a diwylliant Cymru, yn gadarnhaol ac yn negyddol.
- **Cefnogi** dull partneriaeth strategol sy'n cydweddu nodau a rennir â sefydliadau diwylliannol ac addysgol eraill yng Nghymru lle bynnag y bo modd.

# 2. Llunio Polisi

| Gweithred | Perchennog | Wedi'i Fesur Gan | Llinell Amser |
|---|---|---|---|
| Adolygiad cyfnodol o ddogfennaeth Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Grŵp Llywio | Adroddiad Blynyddol y Gymraeg | Gwanwyn bob blwyddyn |
| Sicrhau bod adolygiad o effeithiau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnwys ym mhob agenda'r Uwch Dîm Rheoli | Swyddog Gweithredol | Manylion yr agenda | Parhaus |
| Archwiliad o bartneriaethau diwylliannol ac addysgol i gynnwys amcanion o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru | Pennaeth Ymgysylltu Strategol | Archwiliad blynyddol | Parhaus |

# 3. Safonau Gweithredol

## Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a gwerthfawrogiad o ddiwylliant Cymru yng ngweithgarwch gweithredol CBCDC o ddydd i ddydd.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy'r dulliau canlynol:

- **Darparu** 'yr Hyb', mewnrwyd CBCDC, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ddarparu dolen i wasanaeth dynodedig a deunydd cymorth i hyrwyddo'r Gymraeg.
- I'r holl staff a myfyrwyr sy'n defnyddio cyfrifiaduron rhwydwaith, **darparu** meddalwedd ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn y Gymraeg a darparu rhyngwynebau Cymraeg (lle mae'r rhain yn bodoli).
- **Asesu** sgiliau Cymraeg ein staff; darparu a hyrwyddo cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i staff ymuno â gwersi Cymraeg neu hybu eu sgiliau Cymraeg.
- **Monitro** pob agwedd ar Safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud â Manylebau Swydd, Cyfweliadau, Sefydlu, Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Gweithdrefnau Disgyblu Staff.
- **Sicrhau** bod yr holl arwyddion a osodir o'r newydd yn ddwyieithog, heb i'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a bod pob cyhoeddiad Blaen Tŷ (sy'n gyffredinol i'r cyhoedd) yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog.
- **Asesu** cyfleoedd ar gyfer presenoldeb CBCDC mewn digwyddiadau diwylliannol Cymraeg bob blwyddyn, gan gynnwys Tafwyl (Caerdydd), Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, gan wneud hynny mewn partneriaeth â sefydliadau diwylliannol ac addysgol eraill, fel y bo'n briodol.
- **Hysbysebu** pob swydd a rôl yn CBCDC gan nodi bod y Gymraeg yn ddymunol neu'n ofynnol.

# 3. Safonau Gweithredol

| Gweithred | Perchennog | Wedi'i Fesur Gan | Llinell Amser |
|---|---|---|---|
| Archwiliad o sgiliau Cymraeg staff | Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau | Adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli | Blynyddol |
| Cynnig deunydd hyfforddi dwyieithog lle cynigir hyn fel hyfforddiant statig ar yr Hyb | Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau | Adnodd hyfforddi ar gael | Ar unwaith |
| Unrhyw arwyddion newydd i gael eu gwirio'n ychwanegol o ran cywirdeb cyfieithu | Rheolwr Ystadau / Pennaeth Digidol a Brand | Gwiriad 'siopwr dirgel' blynyddol gan siaradwr iaith gyntaf | Parhaus |
| Cynnwys cyfleoedd hyrwyddo'r Gymraeg mewn gohebiaeth fewnol | Pennaeth Digidol a Brand | Tracio cynnwys *Sgwrs* | Ar unwaith |
| Cynnwys ystyriaeth o bresenoldeb CBCDC mewn digwyddiadau diwylliannol Cymraeg fel rhan o gynllunio blynyddol | Cyfarwyddwr Materion Allanol | Nifer ac ystod y digwyddiadau a fynychwyd | Parhaus |

# 4. Cadw Cofnodion

## Cadw cofnodion cynhwysfawr mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy'r dulliau canlynol:

+ **Cofnodi** nifer a natur y cwynion a dderbyniwyd, copïau ysgrifenedig ac ymatebion.
+ **Cadw** copi o unrhyw gŵyn sy'n ymwneud â'r Gymraeg (boed yn ymwneud â safonau penodol ai peidio).
+ **Cofnodi'r** camau a gymerwyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.
+ **Cynnal** canlyniadau'r asesiad o sgiliau iaith Gymraeg y cyflogeion.
+ **Monitro** a chofnodi nifer y staff sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg.
+ **Monitro** a chofnodi'r asesiad a wnaed o ran y sgiliau Cymraeg y gall fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.
+ **Cofnodi** nifer y swyddi newydd sydd wedi'u categoreiddio fel swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, angen eu dysgu, yn ddymunol neu ddim yn angenrheidiol.

# 4. Cadw Cofnodion

| Gweithred | Perchennog | Wedi'i Fesur Gan | Llinell Amser |
|---|---|---|---|
| Datblygu protocolau cadw cofnodion ffurfiol | Grŵp Llywio | Protocolau y cytunwyd arnynt yn eu lle | 2022/23 |
| Adolygu a diwygio gweithdrefnau cwyno ar gyfer rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r Gymraeg | Grŵp Llywio | Gweithdrefnau wedi'u hadolygu, eu cytuno a'u cyhoeddi | Ar unwaith |
| Ailsefydlu arolwg blynyddol o Sgiliau Iaith Gymraeg, i gynnwys staff amser llawn, staff ffracsiynol, darlithwyr a delir fesul awr a staff gwadd | Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau | Arolwg blynyddol | Parhaus |

# 5. Cyhoeddi ac Adrodd

## Cyhoeddi'r dogfennau, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r Safonau, ac adrodd yn flynyddol mewn perthynas â chydymffurfiaeth a gweithgarwch.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy'r dulliau canlynol:

+ **Cynnal** a chyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg CBCDC, drwy gyhoeddi Polisi Cwynion a thrwy gynnal a rhannu'r Strategaeth Iaith Gymraeg hon.
+ **Cyhoeddi** Adroddiad Blynyddol.
+ **Ymateb** i geisiadau am wybodaeth mewn modd amserol, tryloyw a chyson.

# 5. Cyhoeddi ac Adrodd

| Gweithred | Perchennog | Wedi'i Fesur Gan | Llinell Amser |
|---|---|---|---|
| Cyhoeddi Polisi Cwynion ar y wefan | Pennaeth Digidol a Brand | Gwiriad cynnal a chadw blynyddol | Gwanwyn bob blwyddyn |
| Cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar y wefan | Pennaeth Gwasanaethau Academaidd | Cyhoeddiad blynyddol | Gwanwyn bob blwyddyn |
| Monitro a rheoli gohebiaeth yn weithredol | Pennaeth Digidol a Brand | Gwiriad dyddiol | Parhaus |

# Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru 2022

**ROYAL WELSH COLLEGE**
OF MUSIC & DRAMA
**COLEG BRENHINOL**
CERDD A DRAMA CYMRU